# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Swyddfa'r Cyngor**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

At: Aelodau'r Cyngor 17/5/22

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR – 19 MAI 2022**
**PAPUR YCHWANEGOL**

Atodaf bapur ychwanegol yng nghyswllt yr eitem isod:-

**10 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 2 - 7

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

Yn gywir,

**Gwasanaeth Democratiaeth**

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19 Mai 2022** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor (papur ychwanegol i gyd-fynd gydag eitem 10)** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor:

1.1 fabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol 2022/23 fel a nodir yn **Atodiad A**, ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau a nodir yn yr atodiad.

1.2 ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol

1.3 mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn: 2 Gadair i'r Grŵp Annibynnol ac 1 Gadair i Grŵp Plaid Cymru. Cyflwynir diweddariad llafar pa grŵp sydd i dderbyn pa Gadair yng nghyfarfod y Cyngor Llawn.

| | <u>Sedd i'w dyrannu i:</u> |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | Grŵp |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | Grŵp |
| Pwyllgor Craffu Gofal | Grŵp |

1.4 Mabwysiadu'r uwch-gyflogau ar gyfer 2022/23 gan ofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth adolygu ar gyfer 2023/24.

1.5 Gadarnhau'r dyraniad swyddi ac oriau ar gyfer Swyddogion cefnogi grwpiau gwleidyddol a hynny am dymor y Cyngor, oni bai bod newid sylweddol yng nghydbwysedd gwleidyddol y Cyngor neu bod grŵp gwleidyddol â llai na 10% o aelodau.

1.6 Mabwysiadu'r dyraniad seddau ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am dymor y Cyngor hwn oni bai fod

adolygiad yn ofynnol oherwydd newid i'r cydbwysedd gwleidyddol neu ddiffyg ymrwymiad gan aelod unigol

**CEFNDIR A RHESYMEG**

## 2. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

2.1. Yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022, mae cydbwysedd gwleidyddol Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

| Grwp | Nifer |
|---|---|
| Plaid Cymru | 44 |
| Annibynnol | 23 |
| Aelodau unigol | 2 |
| **Cyfanswm** | **69** |

**DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU**

2.2. Yn unol â threfniadau y Cyngor hwn, cyflwynwyd draft o'r cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer trafodaeth gan Grŵp Busnes y Cyngor (sef arweinyddion grwpiau gwleidyddol y Cyngor). Cyflwynir argymhellion y Grŵp Busnes ar gyfer dyraniad seddau ar y gwahanol bwyllgorau yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

## 3. CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

3.1 Yr unig bwyllgorau y mae eu cadeiriau i'w dyrannu ar sail cydbwysedd gwleidyddol ydi'r pwyllgorau craffu. Mae rheolau penodol i'w dilyn wrth gyfrifo'r hawliau i gadeiryddiaethau craffu yn seiliedig ar y cydbwysedd gwleidyddol. Mae'r rheolau yn ceisio sicrhau bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau. O ddilyn y rheolau, dyrennir y cadeiryddiaethau fel a ganlyn:

Grwp Annibynnol – 2 gadair, Grwp Plaid Cymru – 1 cadair.

3.2 Cyflwynir yr argymhelliad ar gyfer priodoli'r Cadeiryddiaethau Craffu ar lafar yng nghyfarfod y Cyngor llawn:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | grŵp |
| Pwyllgor Craffu Cymuedau | grŵp |
| Pwyllgor craffu Gofal | grŵp |

## 4. UWCH GYFLOGAU

4.1 Mae'r rhestr o uwch gyflogau yr argymhellir ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn:

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- Hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet

- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf *
- Cadeiryddion Pwyllgorau
    - Pwyllgorau Craffu (x3)
    - Pwyllgor Cynllunio
    - Pwyllgor Trwyddedu (mae'r pwyllgor Trwyddedu Canolog a Chyffredinol yn cael ei drin  fel un pwyllgor)
    - Pwyllgor Pensiynau

## 5. SWYDDOGION CEFNOGI GRWPIAU GWLEIDYDDOL

5.1 Dyrennir oriau y cymorth gwleidyddol rhwng y grwpiau sy'n gymwys fel a ganlyn:

Grwp Plaid Cymru 36 awr
Grwp Annibynnol 19 awr

## 6. CYRFF ALLANOL

6.1 Y Cyngor sy'n penderfynu ar ddyraniadau'r seddau i gyrff sydd angen eu gwneud ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Mae dau o'r rhain, sef

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

6.2 Dyrennir y seddi ar y ddau awdurdod allanol fel a ganlyn:

| CORFF | Plaid Cymru | Annibynnol | Aelodau Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 6 | 3 | 0 | 9 |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 3 | 2 | 0 | 5 |

6.3 Bydd y dyraniad seddi uchod yn sefyll am dymor y Cyngor hwn oni bai fod adolygiad yn ofynnol oherwydd newid i'r cydbwysedd gwleidyddol neu ddiffyg ymrwymiad gan aelod unigol.  Mae'r Arweinyddion y grwpiau gwleidyddol wedi derbyn protocol a swydd ddisgrifiad ar gyfer penodi i'r rolau ar y Parc Cenedlaethol, ac mae'r rolau ar y ddau gorff uchod yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol.

6.4 <u>Panel Heddlu a Throsedd</u>.  Fel a nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol, mae'n ofynnol i'r Cyngor adnabod aelodau i gynrychioli'r Cyngor ar y Panel Heddlu a Throsedd.  Nid yw gwybodaeth am y cydbwysedd gwleidyddol wedi ein cyrraedd hyd yma, ac adroddir ar yr elfen yma i gyfarfod y Cyngor Llawn ar 23ain o Fehefin, 2022.

## 7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1 Yn unol â’r arfer ymgynghorwyd â Grŵp Busnes y Cyngor er i’r amserlen fod yn hynod dynn.

**ATODIAD – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 12 | 6 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 11 | 6 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 11 | 6 | 1 | 18 |
| Llywodraethu ac Archwilio | 8 | 4 | 0 | 12 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 9 | 5 | 1 | 15 |
| Cynllunio | 9 | 5 | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Iaith | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 5 | 2 | 0 | 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **95** | **49** | **4** | **148** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 1 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 7 | 4 | 0 | 11 |
| CYSAG | 4 | 3 | 0 | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 5 | 2 | 0 | 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **115** | **60** | **5** | **180** |

Noder fod yr 17 uwch gyflog sydd i'w neilltuo ar gyfer blwyddyn Ariannol 2022/23 fel a ganlyn:

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- Hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf *
- Cadeiryddion Pwyllgorau
    - Pwyllgorau Craffu (x3)
    - Pwyllgor Cynllunio
    - Pwyllgor Trwyddedu (mae'r pwyllgor Trwyddedu Canolog a Chyffredinol yn cael ei drin  fel un pwyllgor)
    - Pwyllgor Pensiynau